Newyddion.... Newyddion.... Newyddion.... Newyddion....

Awgrymiadau ar gyfer newidiadau i Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru

Pwy ydym

Ni yw'r Grŵp Ymgynghori Pobl Ifanc (YPAG), sef grŵp o bobl ifanc sy'n gweithio gyda Tros Gynnal. Rydym yn siarad â'r Ymddiriedolwyr ac yn cymryd rhan mewn cynadleddau ac ymgynghoriadau sy'n ymwneud â bywydau plant a phobl ifanc. Rydym wedi gweithio ar gynhyrchu'r ddogfen hon i roi gwybod i chi beth mae'r Cynulliad yn ei gredu ddylai ddigwydd i Eiriolaeth. Mae'r ddogfen FAWR y mae hon yn seiliedig arni dros 27 tudalen o hyd – gwirion! Felly rydym am geisio gwneud hon yn fyrrach ac yn haws ei deall.

Newyddion.... Newyddion.... Newyddion.... Newyddion....

Rhag ofn na wyddech chi ddim am eiriolaeth, yr hyn ddywed y ddogfen FAWR yw:

Mae plant a phobl ifanc wedi dweud eu bod yn teimlo'n well ar ôl cael cymorth eiriolaeth.

Dylai eiriolaeth fod ar gael ar gyfer pob mathau o grwpiau o blant a phobl ifanc, nid yn unig i gwyno ond hefyd i'w helpu i fynegi barn am yr hyn sy'n effeithio arnynt.